# TGAU Hanes
# Y Byd Modern

## China dan lywodraeth Mao Zedong, 1949–1976

### Ffocws

China yw'r wlad fwyaf poblog yn y byd. Mae'n datblygu fel archbŵer ac mae llawer yn tybio y bydd yn herio UDA yn ystod y blynyddoedd i ddod. Yn y penodau hyn, byddwch yn astudio'r newidiadau ysgubol sydd wedi effeithio ar China yn ystod yr ugeinfed ganrif:

- Mae Rhan 2 sy'n dechrau ar dudalen 10 yn ystyried sut cafodd y wladwriaeth Gomiwnyddol yn China ei chreu a sut newidiodd y drefn Gomiwnyddol fywydau'r Tsieineaid gan gynnwys y Naid Fawr Ymlaen ym 1958.
- Mae Rhan 3 yn edrych ar y rhesymau dros Chwyldro Diwylliannol Mao yn y 1960au a chanlyniadau hynny. A wnaeth ef greu unbennaeth greulon yn China? Pam mae rhai yn ei ddisgrifio fel arwr ac eraill fel gelyn?
- Yn Rhan 4, byddwch yn ystyried y cysylltiadau rhwng China Gomiwnyddol a'r byd ehangach. Byddwch hefyd yn gwerthuso i ba raddau yr oedd China Gomiwnyddol yn archbŵer erbyn 1976.

### Mae'r penodau hyn yn trin a thrafod

- China o dan reolaeth y Comiwnyddion 1949–65
- China Gomiwnyddol 1965–90 – Y Chwyldro Diwylliannol
- Beth oedd effaith China Gomiwnyddol ar y byd ehangach?

Mae'r gwaith yn berthnasol i fanyleb Hanes TGAU CBAC

ASTUDIAETHAU MANWL AC AMLINELLOL O AGWEDDAU AR HANES CYMRU/LLOEGR A'R BYD

Llwybr A UNED 1: Astudiaeth fanwl – China dan lywodraeth Mao Zedong, 1949-1976

Oherwydd rheolau hawlfraint nid yw'n bosibl cynnwys pob llun yn ddogfen hon ar hyn o bryd.  Gellir gweld y lluniau i gyd yn y fersiwn Saesneg sydd ar gael trwy ddilyn y cyfeiriad gwe isod.

http://www.hodderplus.co.uk/modernworldhistory/pdf/maos-china-1930-76.pdf

Dim ond ar gyfer myfyrwyr yn eich sefydliad eich hun y rhoddir caniatâd i lawr lwytho a gwneud copïau o'r adnodd hwn. Cewch ei lwytho ar amgylchedd dysgu rhithwir neu ar wefan myfyrwyr, ond ni chewch ei anfon y tu allan i'r sefydliad sy'n ei lawr lwytho. Gwaherddir pob defnydd arall.

# Rhan 2 China o dan reolaeth y Comiwnyddion 1949–65

## Ailadeiladu China

Roedd China wedi bod yn rhyfela ers dros 30 mlynedd. Roedd miliynau o bobl wedi marw. Am 20 o'r blynyddoedd hynny, roedd Mao hefyd wedi bod yn rhyfela neu ar ffo. Yn ystod y gwrthdaro, collodd ei wraig gyntaf, ei blant a llawer o'i gymrodyr. Ym mis Hydref 1949, cyhoeddodd ei weledigaeth ar gyfer China newydd a heddychlon.

Mewn egwyddor, roedd y weriniaeth newydd yn cael ei llywodraethu gan glymblaid oedd yn cynnwys y Comiwnyddion a nifer o bleidiau llai. Mewn gwirionedd, Cadeirydd Mao a'r Prif Weinidog Comiwnyddol Zhou Enlai oedd â'r pŵer. Rhoddodd Mao ei gynlluniau ar waith drwy weithwyr y Blaid ym mhob ardal leol.

Roedd ailadeiladu China ar ôl goresgyniad tramor a rhyfel cartref yn her enfawr. Roedd China yn wlad annatblygedig ac roedd ei system lywodraethu ar chwâl. Ychydig iawn o ddiwydiant oedd yno. Roedd y rhan fwyaf ohono ym Manchuria ac wedi'i ddinistrio gan y Rwsiaid wrth iddynt 'ryddhau'r' rhanbarth oddi wrth y Siapaneaid. Yr hyn a wnaethant mewn gwirionedd oedd datgymalu ffatrïoedd a pheiriannau a'u cludo yn ôl i Rwsia. Roedd diweithdra'n uchel ac roedd bwyd yn brin. Dim ond 40 oed oedd disgwyliad oes mewn rhai ardaloedd gwledig. Roedd chwyddiant hefyd yn tyfu'n gyflym.

Ar ôl treulio 30 mlynedd yn ceisio lledaenu syniadau Comiwnyddol ymysg y gwerinwyr, roedd Mao yn ymwybodol iawn nad oedd pobl China'n hoff o newid. Er hynny, roedd eisoes wedi gwneud gwyrthiau gyda'r gwerinwyr yn ystod y Rhyfel Cartref. Roedd yn gwybod eu bod yn weithwyr caled, felly roedd yn teimlo y gallai gyflawni unrhyw beth pe baen nhw'n parhau'n ffyddlon iddo.

FFYNHONNELL **1**

*Dyma gyhoeddi sefydliad Gweriniaeth Pobl China. O hyn ymlaen, bydd ein cenedl yn ymuno â'r teulu mawr o genhedloedd heddychlon a rhydd y byd. Bydd yn gweithio'n ddewr i greu ei gwareiddiad a'i hapusrwydd ei hun yn ogystal â hyrwyddo heddwch a rhyddid ar draws y byd ar yr un pryd. Ni chaiff ein cenedl ei sarhau fyth eto. Rydym wedi sefyll yn gadarn.*

**Mao yn siarad yn 1949.**

### Y Ddeddf Diwygio Amaethyddol

Yn 1950, cyflwynodd Mao y Ddeddf Diwygio Amaethyddol. Anfonodd weithwyr o'i Blaid Gomiwnyddol i bob pentref i orfodi'r ddeddf. Cafodd tiroedd pentrefi eu rhannu rhwng y pentrefwyr a chafodd y pentrefwyr eu hannog i roi landlordiaid o flaen eu gwell yn yr hyn a oedd yn cael eu galw'n 'Llysoedd y Bobl' (gweler Ffynonellau 2 a 3).

Yn y treialon hyn, roedd landlordiaid yn cael eu cyhuddo o droseddau fel codi rhent uchel neu gam-drin eu tenantiaid. Er na chafodd llawer ohonynt eu cosbi, cafodd eraill eu carcharu neu eu dienyddio. Cynorthwyodd gweithwyr y Blaid y broses o sefydlu'r llysoedd, ond y gwerinwyr oedd yn eu rhedeg ac yn gwneud y penderfyniadau. Cynyddodd hyn y gefnogaeth i Mao.

FFYNHONNELL **2**



**Cafwyd Huang Chin-chi ei ddyfarnu'n euog o fod yn landlord gormesol yn y 'llys y bobl' hwn. Cafodd ei saethu ar 17 Ionawr 1953.**

1. Astudiwch Ffynhonnell 3. Beth mae'n ei ddangos am sut roedd landlordiaid yn trin pentrefwyr?
2. Beth oedd rôl gweithredwyr y Blaid Gomiwnyddol?
3. Sut byddai digwyddiad fel hyn yn effeithio ar farn y pentrefwyr am y Comiwnyddion?

FFYNHONNELL **3**

*Roedd un teimlad yn ysgogi pob un ohonynt – dial! Roedden nhw eisiau dial! Roedden nhw eisiau arllwys eu casineb, dioddefaint y rhai a ormeswyd ers dyddiau eu cyndeidiau, casineb miloedd o flynyddoedd; cafodd yr holl ddicter yma ei gyfeirio ato. Bydden nhw wedi hoffi ei rwygo â'u dannedd.*

*Nid oedd y cadres yn gallu rhwystro pawb rhag neidio ar y llwyfan. Drwy gyfuniad o ergydion a melltith, llwyddodd y dorf i'w lusgo oddi ar y llwyfan cyn i fwy o bobl ruthro tuag ato. Dringodd rhai dros bennau ac ysgwyddau'r bobl o'u blaen.*

*Cafodd gŵn sidan Schemer Qian ei rwygo. Roedd ei esgidiau wedi cwympo a'r het bapur wen wedi'i sathru o dan draed. Roedd hi'n anhrefn llwyr. Roedd yn edrych fel ei fod yn mynd i gael ei guro i farwolaeth pan gofiodd Yumin gyfarwyddiadau olaf Cymrawd Pin a gwthio ei ffordd i flaen y dorf. Gan nad oedd unrhyw ffordd arall o'u hatal, rhoddodd ei gorff rhwng y dorf a Quian a gwaeddodd 'Peidiwch â bod ar gymaint o frys i'w guro i farwolaeth! Rhaid i ni ofyn i awdurdodau'r sir!' Dechreuodd gwŷr y milisia fynd ati i archwilio'r bobl.*

*Roedd y bobl yn gandryll fod Yumin wedi amddiffyn Schemer Quian. Gwnaethant bwyso ymlaen gyda'i gilydd. Cafodd Yumin ei daro o gwmpas yn sylweddol, ond llwyddodd i ddweud wrthynt: 'Wir i chi, ro'n i'n poeni ar un adeg na fydden ni'n gallu cael y gorau arno! Nawr eich bod am ei guro i farwolaeth, wrth gwrs mod i'n falch! Rydw i wedi bod eisiau ei guro i farwolaeth ers amser maith er mwyn cael trefn yn ein hardal! Er hynny, does dim gorchymyn wedi dod gan ein swyddogion a feiddiwn i ddim. Feiddiwn i ddim ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Gyda sêl bendith llys y sir yn unig y gellir dienyddio rhywun. Rwy'n gofyn i chi ei ohirio am ychydig ddyddiau. Fel ffafr i mi! Peidiwch â'i ladd eto; fe wnawn ni ei gosbi'n briodol maes o law.'*

*[Trafododd y llys yr achos gan benderfynu peidio ei ddienyddio.]*

*'Diolch i drugaredd y gwŷr rhydd, mae fy mywyd annheilwng wedi'i arbed …'*

*'Beth? Dwi ddim yn deall.' Torrodd llais arall o'r dorf ar draws Quian. 'Dydyn ni wŷr rhydd ddim yn mynd i gytuno â'r holl siarad llenyddol yma. Bydd yn gryno: dyweda fod bywyd dy gi wedi'i arbed.'*

*'Ie, arbed bywyd dy gi!' cytunodd pawb arall.*


*Roedd yn rhaid i Quian barhau: 'Arbedwch fywyd fy nghi. Yn y dyfodol, rhaid i mi newid fy hen ffyrdd dieflig yn llwyr. Os byddaf yn cyflawni'r drosedd leiaf neu'n gwrthwynebu'r bobl, caf fy nienyddio. Mae'r datganiad hwn yn cael ei wneud gan y gormeswr lleol, Quian, ac fe'i llofnodir ym mhresenoldeb y bobl. Awst 3.'*

*Gofynnodd y presidiwm i'r dorf ei drafod, ond ychydig iawn o newidiadau eraill a gynigiwyd, er bod rhai pobl yn parhau i deimlo ei fod wedi cael cosb rhy hael ac y dylent ei guro ychydig yn rhagor.*

*Caniatawyd i Schemer Quian ddychwelyd. Dim ond yn nhŷ Yi yr oedd yn cael byw am y tro. Roedd ei holl eiddo ar wahân i'w dir i'w gymryd ar unwaith gan gymdeithas y pentrefwyr. O ran faint y dylai gael ei adael iddo, gadawyd y pwyllgor asesu tiroedd i benderfynu hynny.*

**Dyfyniad o *The Sun Shines over the Sangkan River*, nofel gan Ding Ling. Fe'i cyhoeddwyd yn 1948 ac roedd yn seiliedig ar yr hyn a welodd yr awdures wrth iddi deithio gyda'i gŵr.**

FFYNHONNELL **4**




**Cynhyrchiad bwyd yn China 1949–57.**

FFYNHONNELL **5**

*Ym 1951, sefydlwyd tîm cyd-gymorth gennym. Aeth y gwaith yn dda, ond roedd llawer o ffraeo ynghylch tir pwy y dylem weithio arno'n gyntaf. Roedd yn anodd datrys yr holl broblemau hyn. Dywedodd rhywun 'Pam y dylai ei gae ef gael ei gymryd yn gyntaf? Mae gen i fwy o gnydau. Does bosib mai fy nhro i yw hi nesaf.' Roedd hyn yn parhau beth bynnag y bydden ni'n ei wneud. Felly, dechreuon ni siarad am ffurfio ffermydd cydweithredol y pentrefwyr.*

**Sylwadau pentrefwr Tsieineaidd ym 1953.**

## Y Ffermydd Cydweithredol

**Cynyddodd poblogrwydd Mao yn sgil diwygio'r tiroedd ond ni wnaeth ddatrys ei broblem fwyaf. Roedd poblogaeth China'n tyfu'n gyflym ond nid oedd llawer o gynnydd o ran cynhyrchu bwyd. Roedd yn rhaid cynhyrchu mwy o fwyd i osgoi newyn. Gorfodi'r pentrefwyr i sefydlu timau cyd-gymorth oedd cam cyntaf Mao. Roedd pentrefwyr yn gweithio ar diroedd ei gilydd, yn gwrteithio, yn lladd plâu neu'n cynaeafu, er mwyn i dir pob teulu fod yn fwy cynhyrchiol. Fe welwch yn Ffynhonnell 4 fod y timau cyd-gymorth wedi llwyddo i gynyddu cynhyrchedd – ond ni ddigwyddodd hyn yn ddigon cyflym.**

**O 1953 ymlaen, anogodd Mao y pentrefwyr i sefydlu ffermydd cydweithredol. O dan y system hon, roedd nifer o bobl yn berchen ar dir er mwyn gallu tyfu un cnwd mawr yn effeithlon. Roedd yn bosibl dod ag adnoddau'r ffermydd cydweithredol ynghyd er mwyn prynu offer, gwrtaith a hadau. Roedd llawer o bentrefwyr yn gwrthwynebu gan nad oeddent eisiau ildio tir preifat yr oeddent wedi brwydro amdano, ond rhoddodd gweithwyr Comiwnyddol lleol bwysau arnynt i ymuno â ffermydd cydweithredol. Erbyn 1957, roedd ymhell dros 90 y cant o bentrefwyr China'n perthyn i ffermydd cydweithredol.**

## Diwydiant yn newid

**Pan gymerodd y Comiwnyddion yr awenau yn China, roeddent yn wynebu anhrefn economaidd a diwydiannol. Mynd i'r afael â'r anhrefn hwn oedd y dasg gyntaf.**

FFYNHONNELL **6**



**Gorchmynnodd Mao i brisiau a chyflogau gael eu pennu ar gyfradd isel. Cosbodd y rhai oedd yn gwerthu ar gyfraddau uwch yn llym. Daeth chwyddiant i ben ymhen blwyddyn.**




**Cymerodd y banciau drosodd. Llwyddodd i sefydlogi arian China'n fuan iawn.**





**Cynyddodd y trethi yr oedd busnesau'n eu talu.**



**Roedd cysylltiadau'r rheilffyrdd wedi'u dinistrio yn y rhyfel. Roedd eu hailadeiladu'n flaenoriaeth i Mao er mwyn gallu cludo glo o feysydd glo'r gogledd i ddiwydiannau China. Ymhen ychydig fisoedd, roedd y Comiwnyddion wedi adfer cysylltiadau'r rheilffyrdd i Shanghai – dinas fwyaf China.**

**Diwygiadau economaidd a diwydiannol Mao.**

FFYNHONNELL **7**

*Bydd yn cymryd blynyddoedd lawer i wella sefyllfa economaidd wael China. Rhaid i China ddefnyddio elfennau o gyfalafiaeth drefol a gwledig sy'n helpu'r economi genedlaethol. Rheoli cyfalafiaeth yw'r polisi ar hyn o bryd, nid ei dileu.*

**Mao yn siarad ar ddechrau'r 1950au.**

## Cynllun Pum Mlynedd 1953–57


Nid oedd datrys y problemau cyfredol yn ddigon. Roedd Mao am i China fod yn archbŵer diwydiannol. Aeth ati'n araf i ddechrau. Yna, yn 1953, hawliodd y llywodraeth bob busnes. Cynlluniodd a threfnodd beth ddylai gael ei gynhyrchu ond parhaodd y perchenogion yn rheolwyr. Dechreuodd Mao y Cynllun Pum Mlynedd am y tro cyntaf yn 1953 hefyd. Gyda chymorth yr Undeb Sofietaidd, dechreuodd raglen uchelgeisiol i adeiladu diwydiannau newydd. Cafodd miliynau o Tsieineaid eu goruchwylio gan filoedd o wyddonwyr a pheirianwyr Rwsia mewn tua 700 o brojectau. Ar yr un pryd, anfonwyd miloedd o fyfyrwyr Tsieineaidd i gael hyfforddiant mewn prifysgolion a cholegau yn yr Undeb Sofietaidd.

Roedd y pwyslais ar ddiwydiannau trwm – dur, glo, cemegion. Y bwriad oedd defnyddio'r deunyddiau crai hyn i adeiladu awyrennau, trenau a pheiriannau a fyddai'n gwella trafnidiaeth ledled China. Agorodd Mao y ffatrïoedd newydd mewn trefi bach yn hytrach nag yn yr hen ddinasoedd diwydiannol. Roedd hyn yn rhannol er mwyn iddynt fod gerllaw deunyddiau crai a oedd newydd gael eu darganfod, ond roedd hefyd am i'r diwydiannau newydd ddechrau 'o'r newydd' fel nad oedd yr 'hen ffyrdd' yn amharu ar syniadau newydd Mao.

Roedd y Cynllun Pum Mlynedd yn llwyddiant ysgubol. Llwyddodd y gweithwyr Tsieineaidd hynod frwdfrydig i ragori ar holl dargedau'r Cynllun Pum Mlynedd. Mewn pum mlynedd, roedd rheilffyrdd ledled China a oedd yn cludo nwyddau hanfodol a deunyddiau crai ar draws pellteroedd maith. Cynyddodd y boblogaeth yn nhrefi a dinasoedd China yn aruthrol wrth i bentrefwyr symud i weithio yn y diwydiannau newydd.

1. Pam oedd y Cynllun Pum Mlynedd yn canolbwyntio ar ddiwydiant trwm?
2. Pam y manteisiodd Mao ar gymorth gan yr Undeb Sofietaidd yn eich barn chi?

FFYNHONNELL **8**




**Cynhyrchiad diwydiannol ym 1952 a 1957. Er bod haneswyr erbyn hyn yn cwestiynu pa mor gywir yw'r ffigurau hyn, mae arsylwyr modern yn cytuno bod yr hyn a gyflawnwyd dal yn syfrdanol.**

### Gweithgaredd

Mae Ffynhonnell 8 yn mynd i gael ei defnyddio i hyrwyddo llwyddiannau diwygiadau Mao. Ysgrifennwch bennawd ar ei chyfer neu ei defnyddio i lunio poster propaganda.

3 Beth oedd diben y diwygiadau a nodwyd yn Ffynhonnell 9 yn eich barn chi?

## Diwygiadau cymdeithasol

Yn ystod y 1950au, ceisiodd Mao foderneiddio a diwygio sawl elfen arall o fywyd yn China.

FFYNHONNELL **9**

**Daeth gofal iechyd yn rhad ac am ddim. Nid oedd meddygaeth wedi datblygu rhyw lawer ond roedd y pwyslais ar atal pobl rhag mynd yn sâl.**



**Glanhawyd y dinasoedd. Roedd yn rhaid i drigolion sefydlu pwyllgorau er mwyn tacluso'r strydoedd. Yn Shanghai roedd ymgyrch yn erbyn llygod mawr lle roedd yn rhaid i bob aelod o'r teulu ddangos cynffon llygoden fawr bob wythnos fel tystiolaeth o'u cyfraniad.**





**Roedd ymgyrch lythrennedd ar waith. Roedd gweithwyr y Blaid yn addysgu pentrefwyr sut i ddarllen ac ysgrifennu, gan addysgu Comiwnyddiaeth Mao iddynt ar yr un pryd. Pan oedd pentrefwyr yn mynd i farchnadoedd, roedd yn rhaid iddynt fynd drwy 'safleoedd gwirio llythrennedd' dan lygaid swyddogion Comiwnyddol. O ganlyniad i hynny, roedd dros 90 y cant o boblogaeth China yn gallu darllen ac ysgrifennu ar lefel sylfaenol erbyn canol y 1960au.**
**Roedd addysg wedi gwella. Roedd angen gweithlu mwy addysgedig ar y diwydiannau oedd yn tyfu yn China. Fodd bynnag, dim ond addysg sylfaenol yr oedd gan Mao ddiddordeb ynddi. Roedd yn amheus o brifysgolion a cholegau ac roedd yn ystyried pobl ag addysg brifysgol fel gelynion Comiwnyddiaeth.**



**Ers canrifoedd nid oedd gan fenywod China lawer o hawliau. Gallai babanod oedd yn ferched gael eu boddi a gallai merched gael eu gwerthu yn forwynion neu'n buteiniaid. Roedd priodasau'n cael eu trefnu ar eu cyfer. Cyflwynodd Mao waharddiad ar briodasau a dywedodd 'bod yr hen system a oedd yn gwneud menywod yn forwynion i ddynion, bellach wedi'i dileu'.**

**Gwnaeth Mao ysgariad yn haws. Roedd modd i fenywod ysgaru dynion, ac nid i'r gwrthwyneb yn unig. Aeth ati hefyd i gynllunio meithrinfeydd er mwyn i famau allu ymuno â'r gwaith pwysig yr oedd angen ei wneud yn China.**





**Daeth llawer o fusnesau a'r holl fanciau o dan reolaeth y wladwriaeth.**

**Diwygiadau cymdeithasol Mao.**

## Rheolaeth

Roedd cymdeithas China dan reolaeth gaeth. Nid oedd Mao eisiau i bobl feddwl yn annibynnol. Defnyddiodd weithwyr ffyddlon ei blaid a 'phropagandwyr' i ledaenu syniadau Comiwnyddol. Yn 1951, roedd gan Mao 1.5 miliwn o bropagandwyr. Mewn gweithleoedd fel ffatrïoedd, propagandwyr oedd hyd at ddeg y cant o'r gweithlu. Roeddent yn boddi China gyda phropaganda. Roeddent yn rhoi posteri ar waliau, yn cynnal grwpiau trafod, grwpiau cyhuddo (lle byddai pobl yn dod ynghyd i sôn am eu methiant nhw ac eraill i fod yn Gomiwnyddion da), grwpiau adrodd storïau a chofio (lle byddai pobl yn sôn am ddioddefaint yr hen ddyddiau cyn i'r Comiwnyddion gymryd yr awenau).


### Tasg Ffocws

**Beth oedd effaith newidiadau'r Blaid Gomiwnyddol?**

Dewiswch un o'r cymeriadau canlynol ac eglurwch un peth a newidiodd i bob un ohonynt yn sgil diwygiadau Mao.



Pentrefwr



Landlord



Menyw



Gŵr busnes

FFYNHONNELL **10**

*Roedd dau gymrawd fy mam wedi mynnu ei bod wedi ymddwyn mewn modd 'bourgeois' [gwrth chwyldroadol]. Dywedon nhw nad oedd hi wedi bod eisiau mynd i'r wlad i gasglu bwyd. Pan dynnodd sylw at y ffaith ei bod wedi mynd, yn unol â dymuniadau'r Blaid, eu hymateb oedd: 'Efallai, ond doeddet ti ddim eisiau mynd mewn gwirionedd!'. Aethant ati wedyn i'w chyhuddo o fwynhau bwyd breintiedig – a goginiwyd hefyd gan ei mam gartref – ac o fod yn sâl yn amlach na'r rhan fwyaf o fenywod beichiog. Cafodd hefyd ei beirniadu gan Mrs Mi oherwydd bod ei mam wedi gwneud dillad ar gyfer y babi.*

*'Cymaint o wastraff bourgeois,' meddai. 'Pam nad yw hi'n gallu ei lapio mewn hen ddillad fel pawb arall?' Roedd y ffaith iddi ddangos ei thristwch pan fu'n rhaid i fy mam-gu adael ei amlygu a'i ddefnyddio fel prawf diamheuol ei bod yn rhoi ei theulu'n gyntaf. Trosedd ddifrifol...Yn y pen draw, pleidleisiodd dau o gymrodion fy mam yn erbyn rhoi aelodaeth llawn o'r Blaid iddi.*

**O *Wild Swans* gan Jung Chang. Mae'r awdur yn disgrifio profiadau ei mam yn 1950 yn y dyddiau cynnar ar ôl y chwyldro Comiwnyddol.**

Byddai'n rhaid i bobl gyffredin fynychu tri neu bedwar cyfarfod o'r fath bob pythefnos. Roedd y bobl y tybiwyd bod angen mwy o 'ailaddysgu' arnynt yn gorfod cyfarfod hyd yn oed yn amlach. Roedd gan bob propagandydd dargedau i'w cyrraedd ac roeddent yn cystadlu yn erbyn ei gilydd er mwyn lledaenu mwy o bropaganda. Roeddent yn annog pawb o'u cwmpas i gyfrannu at gynhyrchu propaganda. Posteri ar waliau oedd y math mwyaf cyffredin o bropaganda. Yn 1957 a 1958, cynhyrchodd myfyrwyr ym Mhrifysgol Beijing hanner miliwn o bosteri yn ymosod ar wastraff ac anoddefgarwch yng nghymdeithas China. Nid oedd digon o waliau ar gael i arddangos pob un, felly cafodd posteri eu hongian â llinynnau ar draws nenfydau coridorau ac ystafelloedd ledled y brifysgol.

FFYNHONNELL **11**

*Mae'n dda defnyddio ein posteri wal yn ein hymgyrch mewn ffatrïoedd. Gorau po fwyaf y defnyddiwn. Os oes gennych 10,000 o ddalenni yn eich safle, rydych yn y dosbarth cyntaf. Os oes gennych 5,000 o ddalenni, rydych yn yr ail ddosbarth, ac mae 2,000 o ddalenni'n golygu eich bod yn y trydydd dosbarth. Os ydych wedi gadael un neu ddwy o ddalenni'n unig yma ac acw, ni fydd hynny'n cyfrif o gwbl.*

**Cyfarwyddiadau i bropagandwyr yn 1958.**

Roedd propaganda i'w weld ym mhobman. Roedd uchelseinyddion yn darlledu rhaglenni radio a oedd yn sôn am lwyddiannau diweddaraf rhaglenni diwygio'r Comiwnyddion, yn ogystal â rhoi cyngor am sut i fod yn daclus, sut i goginio tatws melys, ble i beidio â phoeri a sut i drechu imperialwyr Americanaidd. Y Blaid Gomiwnyddol oedd yn rheoli pob papur newydd. Roedd y llywodraeth yn gwneud ffilmiau propaganda. Yn ystod Rhyfel Korea, roedd y propagandwyr yn cystadlu â'i gilydd er mwyn annog cynifer o bobl â phosibl i weld y ffilm wrth-Americanaidd Gwrthsefyll America, Cynorthwyo Korea.

Un o nodau'r propaganda oedd amlygu unrhyw un a allai wrthwynebu'r llywodraeth Gomiwnyddol. Roedd tramorwyr, cenhadon neu ddynion busnes a allai ledaenu syniadau gwrth-Gomiwnyddol yn cael eu gorfodi i adael y wlad. Pe byddai pobl China yn dangos gwrthwynebiad i'r llif o bropaganda, roeddent yn cael eu hystyried fel gwrthwynebwyr ac roedd y pwysau arnynt yn cynyddu. Byddent yn cael eu condemnio mewn cyfarfodydd cyhuddo. Gallai gweithwyr y Blaid osod uchelseinyddion y tu allan i'w cartrefi a byddai eu troseddau honedig yn cael eu llefaru'n uchel drwy'r nos. Roedd y rhan fwyaf yn ildio o dan y pwysau. Cafodd y gweddill eu hanfon i wersylloedd llafur i'w hailaddysgu neu eu hanfon i fyw gyda'r pentrefwyr i ddilyn eu hesiampl. Cafodd miloedd eu lladd.

Dysgodd pobl sut i guddio eu gwir deimladau. Dysgon nhw'r hyn yr oedd y Blaid eisiau iddynt ei ddweud a'i wneud. Teyrngarwch i Mao oedd yn gyfrifol am hynny'n rhannol – gan ei fod yn ysbrydoli pobl gyffredin China – ond roedd yn rhannol hefyd am fod arnynt ofn cael eu hamlygu fel rhywun gwrth-Gomiwnyddol. Os oedd Mao eisiau iddynt weithio'n galetach, roeddent yn gweithio'n galetach. Os oedd eisiau iddynt gyhuddo ei gilydd o droseddau, byddent yn gwneud hynny. Pe byddai Mao yn penderfynu casáu adar y to– ac roedd ef mewn gwirionedd– byddai pobl ffyddlon China'n ei efelychu ac yn casáu adar y to hefyd.

## FFYNHONNELL 12

**A**



**A Myfyrwyr Beijing (Peking) yn gosod posteri chwyldroadol.**

**B**



**B Poster o'r 1950au.**

## FFYNHONNELL 13




**Gweithwyr yn mynd i ffatri o dan faner Mao.**

# Y Naid Fawr Ymlaen, 1958

Yn 1956, cyhoeddodd Mao gyfnod o drafod a myfyrio ar sut roedd China'n cael ei rhedeg. Awgrymodd y byddai trafodaeth agored yn arwain at ffyrdd gwell o lywodraethu. Dywedodd 'gadewch i gant o flodau flodeuo', ond cafodd dipyn o ergyd yn sgil yr holl bosteri, areithiau a llyfrau oedd yn beirniadu ei lywodraeth. Daeth ymgyrch y Can Blodyn i ben yn sydyn ym mis Mehefin 1957. Yn fuan wedi hynny, cafodd nifer helaeth o'r rhai a fu'n feirniadol eu harestio, eu hailaddysgu neu eu diswyddo.

Credodd Mao fod China yn wlad annatblygedig unwaith eto ac roedd angen chwyldro newydd i ysbrydoli'r bobl. Dywedodd fod angen i China gymryd Naid Fawr Ymlaen. Yn hytrach na phrojectau diwydiannol y Cynllun Pum Mlynedd, roedd yn awyddus i bobl gyffredin y trefi a'r pentrefi gymryd rhan mewn diwydiant ar raddfa fach. Roedd eisiau gweld ffermydd cydweithredol yn dod ynghyd fel comiwnau a byddai gan bob comiwn dargedau diwydiannol yn ogystal â thargedau ffermio. Byddai'r bobl gyffredin yn creu cenedl ddiwydiannol bwerus. Mewn 15 mlynedd byddai China'n cynhyrchu'r un faint o ddur â'r Deyrnas Unedig.

Roedd y comiwnau wedi cael gwared ar dir ac eiddo preifat yn llwyr. Cafodd bywyd teuluol ei ddisodli gan ffreuturiau, barics ac ystafelloedd cysgu a oedd yn cael eu rhannu. Roedd brigadau o rhwng 600 a 1,000 o bobl ym mhob comiwn.

Roedd y brigadau'n cael eu rhannu'n dimau o 50 i 200 a fyddai'n cynllunio ac yn cyflawni'r gwaith yr oedd angen ei wneud.

Parhaodd rhai aelodau i weithio yn y meysydd. Roedd eraill yn mwyngloddio am lo neu haearn tra bod eraill yn ei doddi mewn ffwrneisi crai syml. Yn y cyfamser, roedd eu cydweithwyr yn adeiladu ysgolion, ysbytai a ffyrdd tra bod eraill yn gwella'r tir gyda phrosiectau dyfrhau neu gorlannu. Fel gyda'r ffermydd cydweithredol, bu gwrthwynebiad, ond parhaodd y broses doed a ddelo. Erbyn diwedd 1958, roedd y rhan fwyaf o ddinasyddion China'n perthyn i un o'r 40,000 o gomiwnau yn y wlad.

1 Ni all haneswyr gytuno pa un a oedd ymgyrch y Can Blodyn yn:
a) ymdrech ddilys i holi barn y bobl; neu'n
b) ffordd dwyllodrus o ddod â'u gwrthwynebwyr i'r amlwg.
Beth yw eich barn chi?

FFYNHONNELL **14**

*Pam na all 600 miliwn o bobl dlawd greu gwlad sosialaidd gyfoethog a chryf o'u pen a'u pastwn eu hunain? Y gweithwyr, y pentrefwyr a'r deallusion sy'n gweithio sy'n creu cyfoeth cymdeithas. Os ydynt yn cymryd yr awenau eu hunain ac yn mynd i'r afael â'r problemau o ddifrif yn hytrach na'u hosgoi, nid oes unrhyw anhawster na allant ei datrys.*

**Mao, yn siarad am y Naid Fawr Ymlaen.**

2 Esboniwch yn eich geiriau eich hun beth mae Mao yn ei ddweud yn Ffynhonnell 14


FFYNHONNELL **16**



**Pentrefwr yn gweithio ar beiriant dyrnu grawn a wnaed gartref.**

FFYNHONNELL **15**

**A**



**B**



**Ffwrneisi chwyth mewn pentref yn China a adeiladwyd yn rhan o'r Naid Fawr Ymlaen. A – y ffwrneisi'n cael eu hadeiladu. B – y ffwrneisi'n cael eu defnyddio.**

FFYNHONNELL **18**

*Mae Dazhai yn enwog oherwydd y ffordd y mae ei 365 o drigolion wedi gosod esiampl drwy gerfio meysydd wedi'u terasu ar lethrau bryniau serth a charegog. Chwys llafur gyda chyfarpar syml iawn sy'n gyfrifol am y gwaith hwn. Mae Dazhai yn dlawd iawn mewn sawl ffordd, ond does dim dwywaith ei fod yn datblygu'n gyflym iawn. Mae rhyw deimlad arbennig yn perthyn i'r lle.*

**Adroddiad am Gomiwn Dazhai gan Colin Mackerras oedd yn byw yn China yn y 1960au.**

3. Pa argraff o'r Naid Fawr Ymlaen y mae Ffynonellau 14-17 yn ei rhoi i chi?
4. Lluniwch ddwy restr sy'n rhoi'r rhesymau dros fethiant y Naid Fawr Ymlaen a chanlyniadau hynny.

## Tasg Ffocws


**A oedd y drefn Gomiwnyddol o fudd i bobl China?**

Gweithiwch mewn parau.

Mae angen i un ohonoch lunio rhestr o'r ffyrdd y bu'r drefn Gomiwnyddol o fudd i bobl China yn eich barn chi; mae angen i'r llall restru'r ffyrdd nad oedd o fudd iddynt.

Cymharwch y ddwy restr cyn ysgrifennu ateb cytbwys i'r cwestiwn uchod. Dylech gynnwys tystiolaeth o'r ffynonellau ar dudalennau 10–17.

FFYNHONNELL **17**



**Pentrefwyr Tsieineaidd yn tyllu terasau a meysydd wedi'u terasu yn China.**

Ar y dechrau, roedd yn edrych fel bod y Naid Fawr Ymlaen yn llwyddiant arall i Mao. Mewn blwyddyn roedd lefelau cynhyrchu haearn wedi dyblu. Er hynny, roedd y Naid Fawr Ymlaen yn fethiant trychinebus mewn gwirionedd. Yn 1960, ffraeodd Mao gydag arweinydd newydd yr Undeb Sofietaidd, Khrushchev, a aeth ati i dynnu ei gynghorwyr o China. Roedd pobl China yn barod i weithio ond nid oedd ganddynt yr arbenigedd technegol i wneud i'r cynllun weithio. Daeth i'r amlwg fod y cyflenwad enfawr o haearn a gynhyrchwyd yn y ffwrneisi crai syml yn frau, yn amhur a bron nad oedd modd ei ddefnyddio.

Nid oedd y sefyllfa lawer gwell ym myd ffermio. Roedd pentrefwyr yn cael eu gorfodi i ddefnyddio dulliau y rhoddwyd cynnig arnynt mewn rhannau eraill o'r wlad, er nad oeddent yn gweddu i'w tiroedd nhw. Roedd y system gomiwn yn golygu nad oeddent bellach yn cael rhagor o fwyd na chyflogau uwch am weithio'n galed, felly roedd llawer o bobl yn gwneud llai o waith. Ar ben hynny, cafodd dwy flynedd o sychder difrifol yn y 1960au effaith andwyol ar gynhyrchiad ffermydd yn y comiwnau. O ganlyniad i'r Naid Fawr Ymlaen, bu newyn difrifol. Ar y pryd fe guddiodd arweinwyr China hyn, ac yn ôl cyfrifon diweddar mae'n debyg bod 30 miliwn o Tsieineaid wedi llwgu i farwolaeth rhwng 1958 ac 1962 o ganlyniad iddi.

Flynyddoedd yn ddiweddarach, daeth i'r amlwg mai twyll oedd llwyddiannau honedig y Naid Fawr Ymlaen, fel y terasu yn Dazhai (Ffynhonnell 18). Nid trigolion Dazhai a derasodd y bryniau caregog na thyllu'r dyfrffosydd. Y gwir amdani oedd bod Dazhai wedi cael miliynau o ddoleri gan y llywodraeth yn ogystal â chymorth miloedd o filwyr. Roedd ffigurau cynhyrchu cynyddol Dazhai yn rhai ffug hefyd. Mewn gwirionedd, roedd lefelau cynhyrchu wedi gostwng bob blwyddyn.

Roedd y methiant hwn yn niweidiol ac yn codi cywilydd ar Mao. Llwyddodd Deng Xiaoping a Liu Shao-qi i gymryd rheolaeth o China oddi arno. Parhaodd Mao yn Gadeirydd y Blaid ond Deng a Liu oedd yn rheoli bellach. Aethant ati i aildrefnu'r comiwnau, eu gwneud yn llai a'u rhoi yn ôl dan reolaeth y pentrefwyr.

# Rhan 3 China Gomiwnyddol 1965–90

## Y Chwyldro Diwylliannol

**Ymddiswyddodd Mao fel Arlywydd China yn 1959, ond parhaodd yn Gadeirydd y Blaid Gomiwnyddol. Erbyn canol y 1960au, roedd yn dechrau poeni am y llwybr yr oedd China'n ei ddilyn. Roedd yn edrych fel bod arbenigwyr dosbarth canol a thrigolion y trefi yn mynd yn gyfoethog ar draul y pentrefwyr a'r bobl gyffredin.**

**Dechreuodd chwarae rôl amlycach yn China. Yn 1966, roedd posteri oedd yn dathlu llwyddiannau Mao i'w gweld ym mhobman ac argraffwyd miliynau o gopïau o Ddyfyniadau'r Cadeirydd Mao (neu Lyfr Bach Coch Mao) a'u dosbarthu'n rhad ac am ddim. Galwodd Mao ar y to ifanc i godi a chael gwared ar yr elfennau gwrth-Gomiwnyddol o fewn y Blaid, yr ysgolion, y prifysgolion a chymdeithas China yn gyffredinol.**

FFYNHONNELL **1**



**Yn 1966, nofiodd Mao (yn y tu blaen) 24 cilomedr lawr Afon Yangtze i ddangos ei fod yn fyw ac yn iach.**

FFYNHONNELL **2**

*Gosododd y Cadeirydd Mao ei boster 'Targedwch y Pencadlys' enwog. Ymosododd ar arweinwyr y lefel uchaf cyn symud ymlaen i dargedu'r lefelau is. Liu Shao-qi a Deng Xiaoping oedd ei brif dargedau...*
*Yn fuan wedi hynny, roedd llawer o bobl yn Changsha, gan gynnwys rhai pwysig dros ben, yn cael eu cyhuddo a'u diswyddo. Roedd fel petai pobl dda yn cael eu cyhuddo o fod yn bobl ddrwg yn ddyddiol ac mai esgus cefnogi'r chwyldro oedden nhw. Roedd y mwyafrif yn meddwl bod y Chwyldro Diwylliannol yn rhywbeth ardderchog oherwydd byddai China'n llawer mwy diogel ar ôl amlygu ein gelynion. Felly, ro'n i'n teimlo'n llawn cyffro ac yn hapus ac ro'n i'n dymuno y gallwn wneud rhywbeth i helpu.*

**Liang Heng, oedd yn 12 oed yn 1966, yn disgrifio dechrau'r Chwyldro Diwylliannol.**

FFYNHONNELL **3**

Nid yw'r llun hwn ar gael. Os hoffech weld copi o'r llun ewch i: http://www.hodderplus.co.uk/modernworldhistory/pdf/maos-china-1930-76.pdf

**Poster a gyhoeddwyd yn ystod y Chwyldro Diwylliannol.**

FFYNHONNELL **4**

*Nid yw rhai pobl sydd â chyfrifoldebau pwysig yn y Blaid Gomiwnyddol, yn Gomiwnyddion go iawn.*

**Mao, yn siarad ar radio Tsieineaidd yn 1966.**

FFYNHONNELL **5**

*Er bod y dosbarth canol wedi'i ddisodli, mae'n parhau i geisio defnyddio hen syniadau, diwylliant ac arferion y dosbarthiadau sy'n ymelwa er mwyn llygru'r bobl, eu twyllo a cheisio ennill eu plwyf unwaith eto.*

**Cyhoeddiad gan Bwyllgor Canolog y Blaid Gomiwnyddol, 1966.**

FFYNHONNELL **6**

*Mae pob llythyren o eiriau'r Cadeirydd Mao yn aur ac mae pob brawddeg yn wir. Syniadau Mao Zedong yw'r haul coch yng nghalonnau pawb yn China a'r chwyldroadwyr ar draws y byd; dyma eu hangor a'u trysor. Ni all pysgod fyw heb ddŵr, felly sut gall pobl gynnal chwyldro heb syniadau Mao Zedong?*

**Siant gan y Gwarchodlu Coch yn ystod y Chwyldro Diwylliannol.**

## FFYNHONNELL 7



**Tri o bobl yn cael eu hamlygu ar y strydoedd gan y Gwarchodlu Coch ar ôl cael eu cyhuddo o fod yn wrth chwyldroadol.**

## FFYNHONNELL 8

Nid yw'r llun hwn ar gael. Os hoffech weld copi o'r llun ewch i: http://www.hodderplus.co.uk/modernworldhistory/pdf/maos-china-1930-76.pdf

**Ardystiad gan y Gwarchodlu Coch o blaid y Cadeirydd Mao.**

1 Astudiwch Ffynonellau 1–8 a gwneud nodiadau o dan y penawdau canlynol:
   a) Amcanion y Chwyldro Diwylliannol.
   b) Y dulliau a ddefnyddiodd Mao a'i gefnogwyr yn ystod y Chwyldro Diwylliannol.

## FFYNHONNELL 9

*Roedd y Chwyldro Diwylliannol yn beth da mewn gwirionedd. Yn y 1950au, roedd y Tsieineaid yn syml iawn. Roeddent yn credu yn y Comiwnyddion – fel fy mam. Athrawes yw hi. Beth bynnag roedd y Comiwnyddion yn ei ddweud, roedd hi'n cyd-fynd â nhw. Wedyn, yn ystod y Chwyldro Diwyllianol, cafodd ei charcharu am flwyddyn a hanner gan fod ei thad yn ysgolhaig blaenllaw a oedd yn 'gyfalafwr' yn eu barn nhw. Cafodd ei gorfodi gan rai Gwarchodwyr Coch yn ei hysgol i benlinio ar wydr wedi torri o flaen yr holl fyfyrwyr. Yn ôl pob tebyg, dyma oedd un o'r pethau gwaethaf y gallan nhw fod wedi'i wneud i rywun deallus – gwneud iddi deimlo mor fach. Agorodd y Chwyldro Diwyllianol ei llygaid. Gwelodd beth oedd y Comiwnyddion mewn gwirionedd.*

**Merch Tsieineaidd, 16 oed, yn siarad am y Chwyldro Diwylliannol.**

2 Darllenwch Ffynhonnell 9. Pam mae'r siaradwr yn meddwl bod y Chwyldro Diwyllianol yn rhywbeth da?

Cafodd Deng Xiaoping a Liu Shao-qi eu diswyddo. Gorfodwyd Deng i fod yn weinydd a bu farw Liu ym 1969 ar ôl bod yn y carchar am dair blynedd.

Am y tair blynedd a oedd yn dilyn y Chwyldro Diwylliannol roedd China'n plymio'n ddwfn i argyfwng. Dywedodd Mao wrth fyfyrwyr ifanc China i drefnu eu hunain yn Warchodlu Coch. Aeth y Gwarchodlu Coch hwn yn wyllt ulw. Roedd plant yn cyhuddo eu rhieni o fod yn wrth-Gomiwnyddol. Cafodd ysgolion a cholegau eu cau a chafodd llawer o athrawon a darlithwyr eu curo a'u cam-drin am fod yn wrth-chwyldroadol. Roedd gorfodi rhywun i benlinio ar wydr wedi malu yn un o'r dulliau arteithio. Trefnodd Jiang Quing, sef gwraig Mao, ardystiadau enfawr ar gyfer y Gwarchodlu Coch drwy gydol 1967 ac 1968.

Roedd y Gwarchodwyr Coch yn ysbeilio ffatrïoedd a swyddfeydd, gan gynnwys swyddfeydd y Blaid Gomiwnyddol. Roeddent yn torri i mewn i dai. Ym mhobman, roedd llyfrau, gwaith celf, technoleg amheus – unrhyw beth a allai gael ei ystyried yn wrth chwyldroadol – yn cael eu difetha neu eu llosgi. Cafodd miloedd o bobl ddiniwed eu curo, eu harteithio, eu lladd neu eu carcharu. Achosodd yr honiadau a chamdriniaeth ddi-baid i eraill ladd eu hunain.

Erbyn 1967, roedd y Chwyldro Diwylliannol yn prysur fynd y tu hwnt i bob rheolaeth. Dechreuodd y Gwarchodlu Coch ymwahanu'n garfanau oedd yn cystadlu â'i gilydd. Gan ddefnyddio'r arfau yr oedd byddin Lin Biao wedi'u rhoi iddynt, dechreuon nhw ymladd brwydrau ar y strydoedd. Mewn ardaloedd eraill, roedd y Gwarchodlu Coch yn ymladd â gangiau o bentrefwyr neu hyd yn oed milisia o gyn-reolwyr a swyddogion lleol y Blaid. Erbyn 1968 roedd yn rhaid gweithredu, a chamodd PLA Lin Biao i'r adwy i ddiarfogi'r Gwarchodlu Coch ac adfer heddwch a threfn. Roedd cyfnod treisgar y Chwyldro Diwylliannol ar ben, ond tybiwyd y cafodd tua miliwn o bobl eu lladd. Ni chafodd cenhedlaeth gyfan o bobl ifanc eu haddysgu, ac roedd cynhyrchu diwydiannol wedi lleihau. Roedd rhai ffatrïoedd wedi bod ar gau cyn hired â thair blynedd. Ar ben hyn, roedd ffydd llawer o bobl China yn y Blaid Gomiwnyddol – ffydd a wnaeth eu galluogi i ymdopi â degawdau o newidiadau anodd – wedi'i wanhau am byth.

Ar ôl adfer heddwch, anogodd Mao filoedd o'r Gwarchodlu Coch i symud i gefn gwlad er mwyn ailaddysgu eu hunain a dysgu am ffordd o fyw'r gwerinwyr. Synnwyd llawer o'r Gwarchodlu Coch gan ba mor dlawd oedd y gwerinwyr Tsieineaidd a pha mor anodd oedd eu bywydau. Nid oedd Comiwnyddiaeth wedi bod o fudd mawr iddynt yn ôl pob golwg. Roedd Mao yn gywir. Roedd llawer i'w wneud eto.

## Tasg Ffocws A

**Y Chwyldro Diwylliannol**

1 Mae haneswyr yn anghytuno ynghylch pam yn union y lansiodd Mao y Chwyldro Diwylliannol. Dyma rai o'u hawgrymiadau:
   a) Roedd Mao yn poeni o ddifrif fod China'n mynd yn rhy geidwadol.
   b) Roedd Mao wedi bod eisiau adennill grym ar ôl methiant y Naid Fawr Ymlaen. Dyma ei gyfle.
   c) Roedd yr Americanwyr wedi dechrau ymyrryd yn y rhyfel yn Fietnam. Roedd Mao am gael byddin ymroddedig rhag ofn y byddai'n rhaid ymladd yn erbyn UDA.
   ch) Nid oedd Mao yn hoffi'r arweinwyr Comiwnyddol eraill.
   d) Roedd Mao wedi colli ei ffordd. Roedd wedi colli'r ysbryd chwyldroadol ac roedd yn ymddwyn fel ymerawdwr oedrannus a dim ond rheoli pobl oedd yn bwysig iddo.

Pa rai o'r rhesymau hyn y gellir eu hategu ar sail y dystiolaeth hyd yma?

2 Mewn pedwar paragraff, crynhowch effaith y Chwyldro Diwylliannol ar:
   a) Statws Mao yn China
   b) diwydiant yn China
   c) addysg yn China
   ch) agweddau tuag at Gomiwnyddiaeth.

FFYNHONNELL **10**

*Yn ystod y dyddiau wedi marwolaeth Mao, bues i'n meddwl gryn dipyn … ceisiais feddwl beth oedd ei athroniaeth. I mi, edrychai fel mai'r angen – neu'r dyhead? – am wrthdaro parhaus oedd yr egwyddor ganolog … I mi, ymddangosai ei fod yn hyrwyddwr gwrthdaro wrth reddf a llwyddai i wneud hynny'n dda. Roedd yn deall greddfau cas pobl fel cenfigen a dal dig ac roedd yn gwybod sut i'w defnyddio er ei les ei hun. Roedd yn rheoli drwy annog pobl i gasáu ei gilydd. Llwyddodd Mao i wneud pobl y brif arf yn ei unbennaeth. Dyna pam nad oedd heddlu cudd cywerth â'r Sofietiaid yn China. Nid oedd angen un.*

**O *Wild Swans* gan Jung Chang.**

## Marwolaeth Mao

**Ar ôl y Chwyldro Diwylliannol bu brwydr am rym yn China. Cynllwyniodd Lin Biao i ladd Mao ond, cyn y gallai lwyddo, bu farw Lin mewn 'damwain awyren' yn 1971 a oedd, bron yn ddi-os, yn llofruddiaeth wleidyddol.**

**Ymwahanodd yr arweinwyr yn garfanau gwahanol yn dilyn y digwyddiad hwn. Roedd hen wrthwynebydd Mao, Deng Xiaoping a chyn-Gomiwnydd arall, Zhou Enlai ar un ochr. Roedd Mao a'r 'Giang o Bedwar, – sef gwraig Mao a thri chefnogwr – ar yr ochr arall. Aeth pŵer yn ôl ac ymlaen rhwng y gwahanol garfanau.**

**Yn 1976, bu farw Mao a Zhou ymhen ychydig amser i'w gilydd. Ymhen blwyddyn, cafodd y Giang o Bedwar eu harestio. Cawsant eu rhoi o flaen eu gwell am eu gweithredoedd yn ystod y Chwyldro Diwylliannol. Er hynny, roedd pawb yn gwybod mai Mao, nid y Giang o Bedwar, oedd yn cael ei feirniadu.**

## Tasg Ffocws B

**A greodd Mao unbennaeth greulon yn China?**

Gweithiwch mewn parau.

Dychmygwch fod Mao o flaen ei well ac yn wynebu cyhuddiad o greu unbennaeth greulon yn China. Mae Ffynhonnell 10 yn cael ei defnyddio yn yr achos. Mae angen i un ohonoch hel tystiolaeth i amddiffyn Mao. Gallech ystyried:
- y problemau a wynebodd pan enillodd y Comiwnyddion rym
- etifeddiaeth meddiannaeth Siapan
- yr hyn a gyflawnwyd yn y 1950au.

Mae angen i'r aelod arall hel tystiolaeth yn erbyn Mao. Gallech ystyried:
- dulliau'r Comiwnyddion
- camgymeriadau Mao
- cyfnod y Chwyldro Diwylliannol.

Defnyddiwch eich tystiolaeth i ysgrifennu ateb cytbwys i'r cwestiwn 'A greodd Mao unbennaeth greulon yn China?'

## Ai anghenfil drwg oedd Mao?

**Mae Mao a'i yrfa wedi bod o gryn ddiddordeb i lawer o haneswyr. Bu sawl astudiaeth o Mao ers ei farwolaeth. Un o'r rhai diweddaraf oedd *Mao: The Untold Story*, a ysgrifennwyd gan Jon Halliday a Jung Chang a'i chyhoeddi yn 2005. Prif ddadl y llyfr hwn oedd bod Mao yn ddyn drygionus ac 'mor ddieflig â Hitler neu Stalin, ac wedi gwneud cymaint o niwed i ddynolryw â nhw'.**

**Ond a oes modd ymddiried yn eu dadl? Cafodd Jung Chang ei geni yn China yn 1952 a bu mewn sawl swydd yn y wlad hyd nes iddi symud i Brydain yn 1978. Roedd ei rhieni'n aelodau ffyddlon o'r Blaid Gomiwnyddol ond dioddefodd y ddau ohonynt yn ystod y Chwyldro Diwylliannol. Cawsant eu cyhuddo a'u poenydio. Cafodd ei thad ei garcharu a thorrodd hynny ef yn feddyliol. Gallech feddwl y byddai'r cefndir hwn yn rhoi rheswm arbennig i'r awduron geisio pardduo enw Mao. Er hynny, mae llawer o awduron eraill wedi mynegi safbwyntiau tebyg am Mao:**

- Ysgrifennodd Li Rui, un o gyn-ysgrifenyddion Mao, nad oedd Mao yn 'hidio faint o bobl yr oedd yn ei ladd'.
- Disgrifiodd Li Zhisui, meddyg personol Mao, ef fel dyn ofnadwy.
- Cyfeiriodd Stuart Schram o Brifysgol Harvard, at greulondeb Mao yn ei fywgraffiad ohono yn 1966.
- Ysgrifennodd Jonathan Spence o Brifysgol Yale yn 1999 fod llywodraeth Mao 'wedi ei rhwymo'n gaeth â thrais ac ofn'.
- Mae Roderick MacFarquhar o Brifysgol Harvard yn cymharu Mao gyda Stalin yn ei fywgraffiad a ysgrifennodd yn 2006.

## China ar ôl marwolaeth Mao

Yn y 1970au cynnar, dechreuodd Zhou Enlai a Deng Xiaoping, cyn-wrthwynebwyr i Mao, greu cysylltiadau gwell gyda gwledydd cyfalafol. Roeddent wedi cyflwyno'r Pedwar Moderneiddiad: diwydiant; amaethyddiaeth; gwyddoniaeth a thechnoleg; y fyddin. Daeth Hua Kuo-feng yn Gadeirydd y Blaid yn 1977 a pharhaodd â'r broses foderneiddio hon. Roedd yn dasg anodd, ac erbyn 1978 roedd Hua wedi'i ddisodli unwaith yn rhagor gan Deng Xiaoping. Aeth Deng ati i agor China ymhellach i fasnach a buddsoddiad tramor ac ychwanegodd Bumed Moderneiddiad at ei bolisïau sef mwy o ryddid personol.

Er i'r Pumed Moderneiddiad gael ei gyflwyno'n hynod ofalus, llwyddodd y moderneiddiadau eraill i wella safon byw y rhan fwyaf o Tsieineaid. Caniataodd y Tsieineaid gwmnïau tramor i agor ffatrïoedd mewn parthau arbennig yn China. Erbyn diwedd y 1980au, byddai'r pethau oedd i'w gweld yn China wedi syfrdanu Mao. Roedd modd prynu radios, setiau teledu, watshis a pheiriannau golchi mewn siopau yn China. Roedd tai ac addysg yn ardderchog ac roedd deiet pobl China wedi gwella'n aruthrol.

Roedd hyd yn oed nifer sylweddol o fentrau preifat bychain gyda dynion busnes a ffermwyr cyfoethog yn llwyddo ym maes busnes.

Er hynny, o ganlyniad i'r holl lwyddiannau hyn, sylweddolodd Deng fod yn rhaid iddo fynd i'r afael â'r Pumed Moderneiddiad. Roedd gan y Tsieineaid fwy o gyfoeth ac annibyniaeth ariannol nag erioed o'r blaen. Pam na allent gael mwy o ddylanwad dros eu llywodraeth?

Yn 1989, cynhaliodd myfyrwyr Tsieineaidd wrthdystiad yn Sgwâr Tiananmen yn erbyn llygredd yn y llywodraeth. Buan iawn y trodd hynny'n alwad am fwy o ddemocratiaeth. Ni wasgarodd Deng y torfeydd a bu myfyrwyr yn gwersylla yn y sgwâr am rai wythnosau. Aeth tua 2,000 ar streic newyn a drefnwyd ar yr un adeg ag ymweliad gan Mikhail Gorbachev, y diwygiwr a'r arweinydd o'r Undeb Sofietaidd.

Yn syth ar ôl ymweliad Gorbachev, penderfynodd y llywodraeth weithredu. Ar noson 3 Mehefin, anfonwyd 50,000 o filwyr a thanciau yno. Gan saethu a gwasgu protestwyr o dan danciau, aethant ati i ddinistrio'r mudiad democrataidd. Yn ystod yr wythnosau oedd yn dilyn, cafodd miloedd eu harestio a'u curo, a chafodd rhai eu dienyddio. Dihangodd llawer o arweinwyr y myfyrwyr i'r gorllewin a chreu mudiadau Gwrthsefyll yno. Cafodd yr hyn a wnaeth llywodraeth China ei gondemnio ar draws y byd, ond safodd yr arweinwyr yn gadarn er gwaethaf y feirniadaeth ryngwladol.

1. Yn eich barn chi, pam arhosodd awdurdodau China hyd nes bod Gorbachev wedi gadael cyn sathru ar y brotest yn Sgwâr Tiananmen?
2. Yn eich barn chi, pam aethant ati i sathru ar y brotest mewn modd mor greulon?
3. Beth oedd y newid mwyaf ers marwolaeth Mao?
4. Pa bethau nad oeddent wedi newid ers marwolaeth Mao?

FFYNHONNELL **11**



Nid yw'r llun hwn ar gael. Os hoffech weld copi o'r llun ewch i: http://www.hodderplus.co.uk/modernworldhistory/pdf/maos-china-1930-76.pdf

**Dau lun o Sgwâr Tiananmen ym mis Mai a mis Mehefin 1989, cyn ac ar ôl i'r fyddin fynd yno i sathru ar y gwrthdystiad.**


# Rhan 4 Beth oedd effaith China Gomiwnyddol ar y byd ehangach?

**Hyd yma, rydych wedi bod yn bwrw golwg ar China yn fewnol. Rydych nawr yn mynd i ystyried arwyddocâd y newidiadau yn China i weddill y byd.**

1. Astudiwch Ffynhonnell 1. Pa rai o'r anghydfodau canlynol oedd, yn eich barn chi:
   a) y llwyddiant mwyaf i China?
   b) y bygythiad mwyaf i China?
2. Edrychwch yn ôl ar Ffynhonnell 1 ar dudalen 10. A yw cysylltiadau China â'i chymdogion yn dangos bod addewid Mao wedi'i wireddu? Eglurwch eich ateb.

## China a'i chymdogion

FFYNHONNELL **1**




**Cysylltiadau China gyda'i gwledydd cyfagos ar ôl y Chwyldro Comiwnyddol.**

## China a’r archbwerau

**Achosodd buddugoliaeth y Comiwnyddion yn 1949 ddaeargryn gwleidyddol ar draws y byd. Fel yr ydych eisoes wedi ei weld, dyma’r adeg pryd yr oedd y berthynas rhwng yr UDA gyfalafol a’r Undeb Sofietaidd Gomiwnyddol ar ei gwaethaf yn ystod y Rhyfel Oer. Yn fwyaf sydyn, roedd gwladwriaeth Gomiwnyddol enfawr newydd ar fap y byd. Sut byddai’r archbwerau’n ymateb?**

## Yr Undeb Sofietaidd

Roedd perthynas dda rhwng China a’r Undeb Sofietaidd ar y dechrau. Roedd Rhyfel Korea wedi cryfhau’r cysylltiad rhyngddynt. Llofnododd Mao a Stalin gytundeb cyfeillgarwch.

FFYNHONNELL **2**

*Ym 1945, gwrthododd Stalin â chaniatáu i China gynnal chwyldro. Fodd bynnag, ni wnaethon ni ufuddhau a llwyddodd y chwyldro. Hyd yn oed ar ôl llwyddiant y chwyldro, roedd Stalin yn ofni y byddai China’n ceisio bod yn rhy annibynnol ar wahân i’r Undeb Sofietaidd. Fe es i Foscow ac fe wnaethon ni lofnodi'r Cytundeb Cyfeillgarwch. Roedd hynny hefyd yn dilyn anghydfod gan nad oedd Stalin eisiau ei lofnodi. Dim ond ar ôl deufis o drafod y llofnododd y cytundeb yn y pen draw.*


**Mao yn ysgrifennu am Stalin ym 1962.**

Pan fu farw Stalin yn 1953, fe’i holynwyd gan Khrushchev. Nid oedd Mao yn hoffi syniadau newydd Khrushchev am Gomiwnyddiaeth. Roedd yn amau ymdrechion Khrushchev i wella’r berthynas â’r Gorllewin. Torrodd yr Undeb Sofietaidd a China eu cytundeb cyfeillgarwch yn 1960 a digon llugoer fu’r berthynas rhyngddynt hyd at ganol y 1980au.

Roedd y Rwsiaid yn poeni’n arbennig ynghylch cynlluniau Mao i adeiladu arfau niwclear yn China. Ysgrifennodd Mao yn Nyddiadur y Bobl: ‘Os daw hi i’r pen a hanner poblogaeth y blaned yn marw, Sosialwyr fyddai’r hanner arall; mewn ychydig flynyddoedd, fe fyddai 2,700,000,000 o bobl eto.’

Drwy gydol y 1960au a’r 1970au, fodd bynnag, dilynodd China Gomiwnyddol ei llwybr ei hun o ran polisi tramor gan wrthod gadael i’r Undeb Sofietaidd Gomiwnyddol ddweud wrthi beth i’w wneud. Profodd China ei bom atomig cyntaf yn 1964. Roedd ei hannibyniaeth yn dangos fod China yn archbŵer o bwys yn y byd.

FFYNHONNELL **3**




**Mae’r siart yn dangos sut yr oedd adnoddau UDA, yr Undeb Sofietaidd a China wedi cynyddu erbyn y 1980au.**

## Tasg Ffocws

**Pam y ceisiodd China wella'r berthynas gydag UDA?**

1. Wrth ddarllen y rhan nesaf, nodwch yr holl resymau a welwch yn ffynonellau 4–7 a'r testun a gynorthwyodd i wella'r berthynas rhwng yr UDA a China ar ddechrau'r 1970au.
2. Ar ôl gorffen eich rhestr, ystyriwch pa un o'r rhesymau hyn oedd y pwysicaf. Eglurwch eich dewis.

FFYNHONNELL **4**

*Nid oes modd cael heddwch oni bai bod Gweriniaeth Pobl China'n rhan ohono. Dyna pam rwyf wedi cynnal rhaglenni mewn sawl maes fydd yn galluogi perthynas fwy cyffredin rhwng ein dwy wlad.*

**Yr Arlywydd Richard Nixon yn siarad ym 1971.**

FFYNHONNELL **5**

*Gadewch i mi awgrymu rhywbeth am yr ymweliad â China na all yr Arlywydd sôn amdano. Mae'r Arlywydd, sy'n ymwybodol o'r ffrae rhwng China a Rwsia, yn ymweld â China, yn seboni'r cadlywyddion ac yn gadael llonydd iddynt. Felly, rhaid i Rwsia gadw 40 adran o filwyr ar ororau China.*

**Ronald Reagan, a fyddai'n Arlywydd yn y dyfodol, yn siarad yn 1972. Roedd yn gwrthwynebu Comiwnyddiaeth yn chwyrn ac yn cefnogi'r Arlywydd Richard Nixon.**

FFYNHONNELL **6**

*UDA a'r Undeb Sofietaidd yw ein prif elynion. Byddwn yn ymladd i drechu'r ddau elyn hyn. A ydym am eu hymladd ar yr un pryd? Nac ydym. A ydym am gydweithio ag un ohonynt yn erbyn y llall? Dim gobaith. Byddwn yn gweithredu yn unol â newidiadau mewn amgylchiadau.*

**O bapur cyfrinachol gan lywodraeth China a ysgrifennwyd yn 1973.**

# Unol Daleithiau America

Yn y 1960au, roedd UDA hefyd yn ddrwgdybus iawn o China. Roedd gan China rôl hanfodol yn cyflenwi ac yn rhoi cyfarpar i'r Viet Cong yn Vietnam. Roedd UDA yn meddwl bod China eisiau lledaenu Comiwnyddiaeth i wledydd eraill ansefydlog yn ne-ddwyrain Asia. Drwy gydol y 1960au, rhwystrwyd China Gomiwnyddol gan UDA rhag ymuno â'r Cenhedloedd Unedig, gan gefnogi China Genedlaetholgar Chiang Kai-shek yn lle hynny. Roedd gan UDA lynges o longau yn cadw llygaid ar arfordir China drwy gydol y cyfnod hwn. Fe helpon nhw Japan i gryfhau er mwyn iddi fod yn fyffer mwy effeithiol yn erbyn China.

Ar ôl Rhyfel Korea, roedd China eisiau osgoi gwrthdaro milwrol gyda'i gelynion. Ni wnaeth China erioed anfon milwyr Tsieineaidd i ymladd yn Vietnam. Fel yn UDA a'r Undeb Sofietaidd, cafodd llawer o wrthwynebiad China tuag at wledydd eraill ei fynegi ar ffurf propaganda yn lle hynny.

Fodd bynnag, bu rhai newidiadau ar ôl 1970. Roedd Rhyfel Vietnam wedi bod yn fethiant trychinebus i UDA. Roedd Richard Nixon, Arlywydd newydd UDA, yn ceisio canfod ffyrdd i adael Vietnam ac yn llunio polisi newydd er mwyn mynd i'r afael â bygythiad Comiwnyddiaeth. Sylweddolodd nad oedd UDA yn gallu ymladd yn erbyn Comiwnyddiaeth ym mhobman. Roedd yn teimlo pe gallai wella'r berthynas rhwng UDA a China, gallai fanteisio ar y rhwyg rhwng China a Rwsia.

Nid oedd China eisiau cael ei hynysu oddi wrth UDA a'r Undeb Sofietaidd. Roedd Mao yn awyddus i gael gafael ar fuddsoddiad, technoleg a chynghorwyr y Gorllewin er mwyn helpu diwydiant China.

Yn 1971, ymwelodd Ysgrifennydd Gwladol Nixon sef Henry Kissinger â China. Cytunodd UDA hefyd, o'r diwedd, i adael i China ymuno â'r Cenhedloedd Unedig. Llwyddodd arwyddion symbolaidd eraill i argyhoeddi pobl fod y berthynas gyda'r Gorllewin yn gwella. Cafodd pandas enfawr Tsieineaidd eu hanfon i sw Llundain a chystadlodd tîm tennis bwrdd China – y gorau yn y byd – yn erbyn gwledydd cyfalafol am y tro cyntaf.

Yn 1972, llofnododd China ac UDA Gytundeb Cyfeillgarwch. Ymhen dim o amser, roedd masnach a buddsoddiad yn llifo i mewn i China o America, gorllewin Ewrop a Japan. Ar yr un adeg, cyflwynodd China werth $2 biliwn o archebion am gyngor a pheiriannwaith i UDA.

FFYNHONNELL **7**

Nid yw'r llun hwn ar gael. Os hoffech weld copi o'r llun ewch i:
http://www.hodderplus.co.uk/modernworldhistory/pdf/maos-china-1930-76.pdf

**Cartŵn yn y papur newydd Americanaidd, y *Chicago Tribune*, ar 11 Mawrth 1972. O'r chwith i'r dde, y bobl dan sylw yw'r Arlywydd Nixon, Chiang Kai-shek a Mao Zedong.**

## Tasg Ffocws

**A oedd China yn archbŵer erbyn 1976?**

1 Astudiwch Ffynhonnell 8 yn ofalus. Roedd yr awdur yn ysgrifennu am y 1980au. I ba raddau roedd yr hyn y mae'n ei ddweud yn wir am China cyn i Mao farw?
2 Mae'r rhestr isod yn dangos y ffactorau amrywiol oedd gan UDA a'r Undeb Sofietaidd i haeddu cael eu galw'n 'archbŵer'. Gan ddefnyddio'r testun a'r ffynonellau uchod, penderfynwch i ba raddau yr oedd gan China nodweddion archbŵer ym 1976.
3 Ewch drwy'r un broses eto gan ystyried China heddiw.

FFYNHONNELL **8**

*Mae China'n aml wedi herio gofynion y ddau archbŵer. Ar adegau eraill, mae wedi ymddwyn yn wahanol i sut byddai eraill wedi ei ddisgwyl. Er ei bod mewn sefyllfa anodd yn ôl pob golwg, nid yw China wedi ildio i Moskva (Moscow) nac Washington.*

*Mae China wedi mabwysiadu rôl ryngwladol unigryw mewn sawl anghydfod gwleidyddol a milwrol ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. I ddweud y gwir, rhaid ystyried China fel archbŵer posibl hefyd. Mae'n rym rhy bwysig i gael ei hystyried yn gynghreiriad i Moskva neu Washington, ac mae hefyd yn fwy na phŵer dros dro.*

**Ysgrifennwyd gan yr hanesydd Americanaidd Jonathan Pollack yn *China and the Global Strategic Balance*.**

| NODWEDDION ARCHBŴER | | | |
|---|---|---|---|
| **ADNODDAU** | **GWLEIDYDDIAETH** | **CYNGHREIRIAU** | **POLISÏAU** |
| • Ardal a phoblogaeth fawr<br>• Diwydiannau<br>• Adnoddau naturiol<br>• Cryfder milwrol | • Credoau gwleidyddol cryf (Comiwnyddiaeth, democratiaeth) | • Digonedd o gynghreiriaid neu is-wladwriaethau<br>• Derbyn parch gan wladwriaethau eraill sydd eisiau bod yn gyfeillgar â nhw | • Annibynnol gadarn – yn fodlon mynd yn groes i farn gweddill y byd<br>• Dim ofn gwrthdaro<br>• Cynorthwyo cynghreiriau mewn rhyfeloedd – yn ymladd yn anuniongyrchol |

## China ar ôl Mao: Archbŵer newydd?

Roedd olynydd Mao, Deng Xiaoping, eisiau cael polisi 'drws agored' gyda'r Gorllewin, a thrwy gydol yr 80au llifodd buddsoddiad o America, Prydain, Ffrainc, yr Eidal a'r Almaen i China. Tua diwedd y 1980au, daethpwyd â masnach dramor werthfawr i China yn sgil cyfnewidiadau diwylliannol a thwristiaeth. Daeth Mikhail Gorbachev â'r elyniaeth ddwys rhwng China a'r Undeb Sofietaidd i ben.

Yn y 1990au, dechreuodd Deng broses o ddiwygio'r economi yn China. Parhaodd ei olynydd, Jiang Zemin, â'r polisïau hyn. Yn syml, mae China wedi datblygu i fod yn economi llawer mwy cyfalafol, ond heb yr hawliau democrataidd sydd fel arfer yn gysylltiedig â chyfalafiaeth. Roedd effeithiau economaidd y newidiadau hyn yn syfrdanol, ac nid oes unrhyw amheuaeth fod economi cynyddol China yn dechrau newid byd yr unfed ganrif ar hugain. Cafodd y DU ei disodli gan China fel pedwaredd economi fwya'r byd yn 2005. Yn 2014 China yw ail economi fwya'r byd.

Ar y llaw arall, mae'r rhai sy'n beirniadu China yn nodi pa mor wael yw amodau a chyflogau gweithwyr yn China yn ogystal â hanes hawliau dynol y wlad (er enghraifft, maent yn dienyddio dros 1,000 o bobl bob blwyddyn, sy'n fwy nag UDA). Mae eu datblygiad economaidd wedi achosi problemau ofnadwy o ran llygredd.

Mae'r defnydd y mae China'n ei wneud o Tibet (sy'n cael ei hystyried ganddynt fel rhan o China), neu'r ffordd gaeth y mae gwybodaeth ar y rhyngrwyd yn cael ei rhwystro hefyd wedi denu beirniadaeth ryngwladol yn benodol. Hyd yma, nid yw China wedi awgrymu ei bod am ymateb i'w beirniaid. Yn ôl pob tebyg, mae gwledydd eraill wedi dewis peidio ag anghytuno'n ormodol gyda China oherwydd ei phŵer economaidd.

Derbyniodd China sylw rhyngwladol enfawr yn 2008 pan gynhaliwyd y Gemau Olympaidd yn Beijing. Buddsoddodd China lawer o amser ac arian yn y gemau i sicrhau fod popeth yn mynd yn ddiffwdan.

Hoffai'r cyhoeddwyr ddiolch i'r canlynol am gael caniatâd i atgynhyrchu deunydd hawlfraint:

**Lluniau**

**t. 10** © Bettmann/Corbis; **t.15** *ch* © 2002 Topham Picturepoint/TopFoto, *d* © 2000 Topham Picturepoint/TopFoto, *g* © Paul Popper/Popperfoto/Getty Images; **t.16** *i gyd* Jasper Becker; **t.17** *i gyd* © Keystone/Hulton Archive/Getty Images; **t.18** *ch* © AP/Press Association Images; **t.19** *ch* © Rolls Press/Popperfoto/Getty Images; **t.21** *ch* © Associated Press/Topham/TopFoto.

**Cydnabyddiaethau**
Jung Chang: dyfyniadau o *Wild Swans: Three Daughters of China* (1991; HarperPerennial, 2004); Ding Ling: dyfyniad o The Sun Shines over the Sangkan River (1948; Foreign Languages Press, 1954).

Mae pob ymdrech wedi'i wneud i gysylltu â deiliaid yr hawlfraint cyn cyhoeddi. Os cysylltwyd, bydd y cyhoeddwr yn fwy na pharod i gywiro unrhyw beth sydd wedi'i hepgor neu gamgymeriadau cyn gynted â phosibl.

Er bod pob ymdrech wedi'i wneud i wneud yn siŵr bod cyfeiriadau gwefannau'n gywir pan gyhoeddwyd y llyfr hwn, ni all Hodder Education fod yn gyfrifol am gynnwys unrhyw wefan y cyfeirir ati yn y llyfr hwn. O bryd i'w gilydd, mae'n bosibl dod o hyd i dudalen ar y we sydd wedi symud drwy nodi cyfeiriad hafan y wefan yn ffenestr URL eich porwr.

© Ben Walsh 1996, 2001, 2009
Cyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1996 gan
Hodder Education,
Is-gwmni Hachette UK
338 Euston Road
Llundain NW1 3BH

Cyhoeddwyd yr ail rifyn yn 2001
Cyhoeddwyd y trydydd rhifyn hwn yn 2009

| | |
|---|---|
| Rhif yr argraffiad | 5 4 3 2 1 |
| Blwyddyn | 2013 2012 2011 2010 2009 |

Teitlau eraill yn y gyfres:
OCR GCSE Modern World History 9780340981832
Edexcel GCSE Modern World History 9780340981825
GCSE Modern World History CD-ROM 1 International Relations Dynamic Learning Network Edition 978 0340 990490
GCSE Modern World History CD-ROM 2 Depth Studies Dynamic Learning Network Edition 978 0340 990506
GCSE Modern World History CD-ROM 3 Twentieth Century British History Dynamic Learning Network Edition 978 0340 990513

Dim ond ar gyfer myfyrwyr yn eich sefydliad eich hun y rhoddir caniatâd i lawr lwytho a gwneud copïau o'r adnodd hwn. Cewch ei lwytho ar amgylchedd dysgu rhithwir (VLE) neu ar wefan myfyrwyr, ond ni chewch ei anfon y tu allan i'r sefydliad sy'n ei lawr lwytho. Gwaherddir pob defnydd arall. Cedwir pob hawl. Ar wahân i unrhyw ddefnydd a ganiateir o dan ddeddf hawlfraint y DU, dim ond ar ôl cael caniatâd ysgrifenedig y cyhoeddwyr ymlaen llaw y cewch atgynhyrchu, cadw neu drosglwyddo'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf neu mewn unrhyw ffordd.